**HYSBYSIAD PENNU'R DYDDIAD AR GYFER ARFER HAWLIAU ETHOLWYR AR GYFER Y BLWYDDYN ARIANNOL YN DOD I BEN AR 31 MAWRTH 2025**

## CYNGOR TREF ABERTEIFI

1. Dyddiad cyhoeddi: **16 Mehefin 2025**

2. Bob blwyddyn, archwilir y cyfrifon blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, mae unrhyw berson â diddordeb yn cael cyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau ac yn y blaen sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar rybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol ar gais i:

   **Eleri Maskell**
   **Clerc Cyngor Tref Aberteifi**
   **36 Pendre**
   **Aberteifi**
   **SA43 1JS**

   **cyngor@trefaberteifi.co.uk**

   **01239 621527**

Rhwng yr oriau o **11.00yb a 2.00yp** o ddydd Llun i ddydd Gwener

Yn dechrau ar **1 Gorffennaf 2025**

Ac yn dod i ben ar **28 Gorffennaf 2025**

3. O 15 Medi 2025, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi ei gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:
   - yr hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r cyfrifon.
   - yr hawl i ddod gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a mynegi gwrthwynebiad i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol yn gyntaf. Rhaid rhoi copi o'r rhybudd ysgrifenedig hefyd i'r Cyngor.

Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy: Archwiliadau Cynghorau Cymuned, Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ neu drwy e-bost yn archwiliadcyngorcymunedol@archwilio.cymru.

4. Cynhelir yr archwiliad o dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.